Cyd-gyngor Cymwysterau

AQA Edexcel OCR CCEA CBAC

Cais i Amrywio'r Amserlen a Datganiad Cyfrinachedd ar gyfer Goruchwyliaeth Dros Nos

Rhif y Ganolfan						**Enw'r Ganolfan**						
Rhif yr Ymgeisydd						**Enw'r Ymgeisydd**						
Teitl y Fanyleb						**Modiwl/uned/rhif y papur**						

Amser yr Arholiad yn ôl yr Amserlen	**Dyddiad**	**Amser**
Amser yr Arholiad wedi'i Ad-drefnu	**Dyddiad**	**Amser**
Rheswm dros amrywio'r amserlen		

A. Datganiad gan yr Ymgeisydd

Tystiaf na fyddaf yn cwrdd ag unrhyw ymgeisydd sydd eisoes wedi sefyll yr arholiad nac yn cyfathrebu â nhw nac ychwaith ag unrhyw berson sydd â gwybodaeth am gynnwys yr arholiad. **Deallaf fod cyfathrebu yn cynnwys unrhyw ffurf ar gyfathrebu electronig, e.e. ffôn (gan gynnwys ffôn symudol), ffacs, e-bost a Rhyngrwyd.** Tystiaf hefyd y byddaf yn cydymffurfio â'r trefniadau a wneir gan fy nghanolfan arholiadau.

Deallaf y gall torri'r amodau hyn olygu y bydd y corff dyfarnu'n gosod sancsiynau a chosbau yn unol ag e-gyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisïau a Gweithdrefnau.*

Enw'r Ymgeisydd	**Llofnod**	**Dyddiad**

B. Datganiad gan y Goruchwyliwr

Yr wyf i,…… *(nodwch yr enw)*, yn tystio y bydd yr ymgeisydd a enwir uchod yn cael ei oruchwylio gennyf i'n bersonol trwy'r adeg o'r amser y trosglwyddir goruchwyliaeth yr ymgeisydd i mi gan y person penodol yn y ganolfan tan y byddaf yn trosglwyddo'r oruchwyliaeth yn ôl i'r person a benodir yn y ganolfan.

Deallaf na ddylai'r ymgeisydd gwrdd ag unrhyw ymgeisydd sydd eisoes wedi sefyll yr arholiad na chyfathrebu â hwy nac ychwaith ag unrhyw berson sydd â gwybodaeth am gynnwys yr arholiad. **Mae cyfathrebu'n cynnwys unrhyw ffurf ar gyfathrebu electronig, e.e. ffôn (gan gynnwys ffôn symudol), ffacs, e-bost a'r Rhyngrwyd.**

Deallaf fod rhaid i mi fynd â'r ymgeisydd i'r ganolfan arholiadau a sicrhau y trosglwyddir yr oruchwyliaeth i'r person a benodir yn y ganolfan.

Deallaf y gall torri'r amodau hyn olygu y bydd y corff dyfarnu'n gosod sancsiynau a chosbau yn unol ag e-gyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau: Polisïau a Gweithdrefnau*

Statws y goruchwyliwr ……
(e.e. aelod o staff y ganolfan, rhiant, gofalwr, gwarcheidwad)

Enw'r goruchwyliwr (Printiwch yr enw)	**Llofnod**	**Dyddiad**

C Datganiad gan Bennaeth y Ganolfan

Ar sail datganiadau'r ymgeisydd a'r goruchwyliwr, tystiaf y byddaf yn gwneud cymaint ag y byddai disgwyl i mi ei wneud yn rhesymol i sichrau cyflawni'r amodau hyn. Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r corff dyfarnu priodol os yw'n hysbys neu yr amheuir bod yr amodau hyn wedi cael eu torri.

Pennaeth y Ganolfan (Printiwch yr enw)	**Llofnod**	**Dyddiad**

Nodiadau - Goruchwylio ymgeiswyr dros nos oherwydd amrywiad ar yr amserlen

1. **Os yw hyd cyfan yr holl bapurau i'w sefyll mewn un diwrnod yn fwy na 5 awr 30 munud ar gyfer arholiadau Lefel 1 a 2 (e.e. arholiadau TGAU) neu 6 awr ar gyfer arholiadau Lefel 3 (e.e. arholiadau TAG UG/U2), efallai yr hoffai canolfannau drefnu goruchwyliaeth dros nos.**

   D.S. Gellir cynnig cyfle i'r ymgeisydd sefyll yr arholiadau i gyd ar y dyddiad a amserlennwyd. Dylech gyflwyno cais am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol am y papur olaf a safwyd.

2. **Rhaid** i ymgeiswyr sy'n sefyll arholiad ar ddiwrnod diweddarach nag a gyhoeddir ar yr amserlen fod naill ai'n sefyll arholiadau neu o dan oruchwyliaeth o 30 munud ar ôl amser dechrau penodedig yr arholiad hwyr tan yr amser y byddant yn dechrau'r arholiad, er mwyn gwneud yn siŵr nad oes cysylltiad ag unrhyw ymgeiswyr eraill.

3. **Rhaid** i'r ganolfan benodi **aelod o staff y ganolfan** i oruchwylio'r ymgeisydd **trwy'r amser** tra y bydd ef/hi yn y ganolfan.

4. Gall rhiant/gwarcheidwad/gofalwr neu staff y ganolfan fod yn gyfrifol am oruchwylio ymgeisydd tra y bydd yn teithio i'r ganolfan ac oddi yno a dros nos. Dylai'r ganolfan benderfynu ar ddull goruchwylio sy'n sicrhau lles yr ymgeisydd. **Rhaid** i'r goruchwyliwr gytuno i oruchwylio'r ymgeisydd o'r adeg pryd y bydd ef/hi'n gadael goruchwyliaeth y ganolfan tan y trosglwyddir goruchwyliaeth yr ymgeisydd eto i'r person a benodir yn y ganolfan.

5. **Ni ddylai'r** ymgeisydd gwrdd ag unrhyw ymgeisydd sydd eisoes wedi sefyll yr arholiad na chyfathrebu â hwy nac unrhyw berson sydd â gwybodaeth am gynnwys yr arholiad. **Mae cyfathrebu yn cynnwys unrhyw ffurf ar gyfathrebu electronig, e.e. ffôn, ffacs, e-bost a Rhyngrwyd. Ni ddylai ymgeisydd sy'n cael ei oruchwylio fod â ffôn symudol yn ei feddiant na gallu cael gafael ar ffôn symudol nac unrhyw ffurf arall ar ddyfais gyfathrebu/storio electronig.**

6. Ym mhob achos, **rhaid llenwi a llofnodi copi o'r ffurflen** *Cais am Amrywiad Amserlen a Datganiad Cyfrinachedd am Oruchwyliaeth dros Nos*, **yn ddim mwy na phythefnos cyn cychwyn y gyfres arholiadau,** er mwyn i'r rhai dan sylw ddeall eu cyfrifoldebau. **Rhaid i'r ganolfan a'r goruchwyliwr gadw copi o'r ffurflen.**

7. **Ni ddylid** amgáu ffurflenni wedi'u llenwi gyda'r sgriptiau. Dylid anfon y sgriptiau at yr arholwr/corff dyfarnu yn y ffordd arferol.

8. **Rhaid i'r holl ffurflenni wedi'u llenwi fod ar gael yn y ganolfan i'w harchwilio, a dylid eu cadw ar ffeil tan ddyddiad cau Ymholiadau am Ganlyniadau'r gyfres dan sylw. Nid oes angen anfon y ffurflen hon i'r corff dyfarnu.**

9. **Rhaid** i bennaeth y ganolfan fod yn fodlon bod y trefniadau'n cwrdd â gofynion y corff dyfarnu.

10. **Rhaid** hysbysu'r corff dyfarnu ar unwaith os yw'n hysbys neu os amheuir bod yr amodau hyn wedi'u torri.

11. Gall y corff dyfarnu ddefnyddio dulliau priodol i wirio y cadwyd at yr amodau hyn a bydd yn gweithredu mewn unrhyw achos o'u torri. Gallai hyn arwain at ddiarddel unrhyw ymgeiswyr dan sylw a gallai effeithio a fydd cyrff dyfarnu'n caniatáu consesiynau o'r fath yn y dyfodol.

©2011